CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 23 HYDREF 2018 YN NHŶ HASTINGS

Yn bresennol: Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May

Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol: Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr), Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid), Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon), Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon), Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon), Mr Matthew Farrell (Swyddog Arolygon), Mrs Caroline Redmond (Cynorthwyydd Swyddfa)

Ymddiheuriadau: Mr Theodore Joloza; Mr Tom Jenkins, Mr Matt Redmond, Mrs Cher Cooke

Amser dechrau: 10:40
Amser gorffen: 14:50

1. Datganiadau o Fuddiant

1.1 – Datganodd Mr Owen Watkin ei fuddiant yn wardiau Aberystwyth. Nodwyd y datganiad, a chytunwyd nad oedd yn ddigon sylweddol i fynnu tynnu'n ôl o'r cyfarfod.

2. Brîff y Cadeirydd

2.1 Croesawodd Mr Owen Watkin yr aelodau staff newydd (Mr Huw Blacker a Mr Matthew Farrell) i'r Comisiwn, a dymunodd yn dda iddynt yn ystod eu hamser yn y sefydliad.

3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 25 Medi 2018

3.1 **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2018 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

4. Materion yn Codi

4.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig Hydref 2018, gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd, gan nodi'r materion i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd cyfredol ar y materion canlynol:

- **(Mater 1)** Gwobr Iechyd y Gweithle Bach – Mae'r paratoadau ar gyfer y wobr hon yn mynd rhagddynt.
- **(Mater 3)** Adeiladau – Rydym yn aros am ymateb i'r brydles ddrafft gan Ethical Property o hyd. Cytunodd y Comisiwn i gysylltu â'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg i gymryd camau pellach mewn perthynas â'r brydles.
- **(Mater 4)** Polisïau Adnoddau Dynol – Mae'r adolygiad a'r diweddariad yn mynd rhagddynt.
- **(Mater 6)** Adroddiad Blynyddol – Yn aros i'w gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

- **(Mater 8)** Bydd adolygiadau WJEG yn dechrau ar 26 Hydref, a disgwylir y bydd adroddiad ar gael yng nghanol mis Tachwedd.

5. Buddsoddwyr Mewn Pobl – Mr Howard Jones

5.1 Rhoddodd Mr Howard Jones, a oedd yn cynrychioli Buddsoddwyr Mewn Pobl, gyflwyniad i'r Comisiwn ar ei ganfyddiadau. Roedd prif bwyntiau'r cyflwyniad hwn yn cynnwys cyfradd ymateb o 100% gan bob aelod staff, y Comisiwn yn derbyn meincnod BMP o 748 (mae hyn uwchlaw meincnod cyfartalog BMP a meincnod y Gwasanaeth Sifil) a bod y sgorau a gasglwyd gan BMP yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob dangosydd. Mae'r Comisiwn wedi cyflawni achrediad BMP hyd at 2021.

5.2 Cadarnhaodd y Comisiwn y byddai arolwg BMP arall yn cael ei gynnal ar-lein ymhen 12 mis, cyn adolygiad 2021.

6. Rheoli Risg

6.1 Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 13 Hydref 2018, gan y Rheolwr Cyllid. Mewn perthynas â Risg CR1, nodwyd cais diweddar Swyddfa'r Cabinet am y rhagolwg cyllidebu 4 blynedd (Comisiwn Ffiniau i Gymru). Hefyd, nododd y Comisiwn y byddai angen adolygu cyllideb 2019-20 yn rhannol oherwydd cynnydd sylweddol yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr. Nodwyd y byddai'r Dirprwy Brif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid yn adolygu cyllideb 2019-20, ac yna y byddai Risg CR1 yn cael ei hadolygu.

6.2 Cytunodd y Comisiwn ar sawl newid i'r camau gweithredu lliniarol ar gyfer Risgiau CR2 ac CR6, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol. **Cytunodd** y Comisiwn y byddai papur yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg (PAAR), yn amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran y brydles newydd a thaliadau rhent. **Cytunwyd** y byddai cyflwyno'r adroddiad hwn i'r PAAR hefyd yn cael ei gynnwys yn gam gweithredu lliniarol ar gyfer Risg CR6.

6.3 **Cytunodd** y Comisiwn nad oedd Risg CR7 yn berthnasol mwyach ac y byddai'n cael ei thynnu o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

7. Adroddiad ar y Gyllideb

7.1 Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 13 Hydref 2018, gan y Rheolwr Cyllid. Cymeradwyodd y Comisiwn y cynnig i drosglwyddo cyllid rhwng categorïau'r gyllideb i fynd i'r afael â'r diffygion amcangyfrifedig. Nododd y Comisiwn y sefyllfa gyllidebol ar 30 Medi o ran arian parod, adnoddau a gwariant ar TGCh, a'r rhesymau am y tanwariant.

8. Gwerthusiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd

8.1 Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 10 Hydref 2018, gan y Rheolwr Cyllid. Nododd y Comisiwn yr Adroddiad a chytunodd y byddai fersiwn Word o'r holiadur yn cael ei dosbarthu i aelodau i'w llenwi a'i dychwelyd cyn gynted â phosibl.

9. Arolwg Etholiadol Ceredigion

9.1 - Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 16 Hydref 2018, gan y Swyddog Arolygon.

9.2 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer rhanbarth Aberystwyth, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Aberystwyth Bronglais, Aberystwyth Canol ac Aberystwyth Gogledd, Aberystwyth Rheidol, Aberystwyth Penparcau a Llanbadarn Fawr.

Awgrymodd y Cadeirydd yr enw Morfa a Glais, yn hytrach nag Aberystwyth Bronglais, Aberystwyth Canol ac Aberystwyth Gogledd.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella'r lefel cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal, yn gyffredinol.
- Mae'n cynnal cysylltiadau cymunedol, cymaint ag y bo modd.

9.3 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer rhanbarth gogledd Ceredigion, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Y Borth, Ceulanamaesmawr, Faenor, Tirmynach a Threfeurig.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol.
- Mae'n cynnal cysylltiadau cymunedol, cymaint ag y bo modd.

9.4 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer rhanbarthau Llanfarian a Melindwr, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Llanfarian a Melindwr

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella'r lefel cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal, yn gyffredinol.
- Mae'n cynnal cysylltiadau cymunedol, cymaint ag y bo modd.

9.5 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 4 ar gyfer rhanbarthau Lledrod a Thregaron, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Llangybi, Llangeitho, Lledrod, a Thregaron ac Ystrad-fflur.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella'r lefel cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal, yn gyffredinol.
- Mae'n cynnal cysylltiadau cymunedol, cymaint ag y bo modd.

9.6 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer rhanbarth Canol Ceredigion, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Llanwenog, Llanarth, Llanfihangel Ystrad, Ciliau Aeron, Llanrhystud ac Ystwyth.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol.
- Mae'n cynnal cysylltiadau cymunedol, cymaint ag y bo modd.

9.7 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer rhanbarth Llanbedr Pont Steffan, sy'n cynnwys ward etholiadol arfaethedig:

Llanbedr Pont Steffan.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cynnal cysylltiadau cymunedol, cymaint ag y bo modd.

9.8 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer rhanbarth Aberaeron, sy'n cynnwys ward etholiadol arfaethedig:

Aberaeron a Llansanffraid.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cynnal cysylltiadau cymunedol, cymaint ag y bo modd.

9.9 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer rhanbarth Ceinewydd/Llandysul, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Llandysiliogogo a Llangranog, Gogledd Llandysul a Throedyraur, De Llandysul, Ceinewydd a Llanllwchaearn a Phenbryn.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cynnal cysylltiadau cymunedol, cymaint ag y bo modd.

9.10 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer rhanbarth Llandyfrïog, sy'n cynnwys ward etholiadol arfaethedig:

Llandyfrïog.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cynnal cysylltiadau cymunedol, cymaint ag y bo modd.

9.11 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer rhanbarth Aberteifi, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Aberteifi – Mwldan ac Aberteifi – Rhyd-y-Fuwch a Theifi

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cynnal cysylltiadau cymunedol, cymaint ag y bo modd.
- Mae'n cadw wardiau etholiadol ag un aelod.

9.12 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer rhanbarthau Aberporth, Beulah a Phenparc, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Aberporth a'r Ferwig, a Beulah a Llangoedmor

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cynnal cysylltiadau cymunedol, cymaint ag y bo modd.

9.13 Cytunodd y Comisiwn ar enwau'r wardiau etholiadol arfaethedig i'w cynnwys yn yr Adroddiad Cynigion Drafft, yn amodol ar rai newidiadau. Lle bu newidiadau o'r cynigion drafft, caiff yr enwau eu hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer sylwadau.

10. Arolwg Etholiadol Powys

10.1 – Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 17 Hydref 2018, gan y Swyddog Arolygon.

10.2 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer rhanbarth Ystradgynlais, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Aber-craf ac Ystradgynlais, Cwm-twrch, ac Ynyscedwyn.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal, yn gyffredinol.
- Mae'n darparu ward â dau aelod mewn ardal gymharol drefol.
- Mae'n cynnig y newidiadau lleiaf i'r wardiau etholiadol presennol.

10.3 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer Ysgir a'r rhanbarth cyfagos, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Bronllys a Felin-fach, ac Ysgir gyda Honddu Isaf a Llanddew.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol.

- Mae'n cynnal dwy ward ag aelodau unigol mewn ardal wledig, sydd â chysylltiadau ffordd da.

10.4 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer rhanbarth Crucywel, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Crucywel gyda Chwmdu a Thretŵr, Llangatwg a Llangynidr, a Llangors gyda Bwlch.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol.
- Mae'n creu ward â dau aelod, ond mewn ardal sydd â chysylltiadau ffordd da.

10.5 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 3 ar gyfer rhanbarth Aberhonddu, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Dewi Sant Mewnol a Sant Ioan Gorllewin, a Sant Ioan Dwyrain a Santes Fair.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol.
- Mae'n creu dwy ward â dau aelod mewn ardal drefol sydd â chysylltiadau da iawn.

10.6 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer rhanbarth Llanfair-ym-Muallt, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Llanfair-ym-Muallt, Llanafan-fawr a Garth, a Llanwrtyd.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n darparu gwelliannau cymedrol i lefelau cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cadw tair ward ag un aelod.
- Mae'n defnyddio cysylltiadau cyfathrebu cryf wrth rannu Cymuned Treflys

10.7 **Cytunodd** y comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer rhanbarth Canol Powys, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Diserth a Thre-coed gyda'r Bontnewydd-ar-Wy, Y Clas ar Wy, Dyffryn Ieithon, Trefyclo gyda Bugeildy, Llanelwedd, Llangynllo, Nantmel, Pencraig, Llanandras a Rhaeadr Gwy.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol.
- Mae'n cydymffurfio â sawl cynrychiolaeth yn ymwneud â'r ardal.

- Mae’r cysylltiadau ffordd ar draws y wardiau etholiadol arfaethedig yn dda iawn.

10.8 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer rhanbarth Llandrindod, sy’n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Gogledd Llandrindod a De Llandrindod.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae’n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol.
- Mae’n cynnig ward â dau aelod, ond mewn ardal drefol a chywasgedig.
- Mae’n cadw un o’r wardiau etholiadol presennol.

10.9 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer rhanbarth Llanidloes, sy’n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Caersŵs, Llanbrynmair a Llanidloes.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae’n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae’n cadw’r trefniadau presennol ar gyfer Caersŵs.
- Mae’n creu ward â dau aelod mewn ardal gymharol drefol.

10.10 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer rhanbarth Ceri, sy’n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Ceri a Llandinam gyda Dolfor.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae’n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae’n cynnal trefniadau un-aelod.

10.11 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer rhanbarth y Drenewydd, sy’n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Y Drenewydd Canol a De, Y Drenewydd Dwyrain, Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaearn, a’r Drenewydd De Llanllwchaearn.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae’n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae’n cynnig y newidiadau lleiaf i’r trefniant presennol.

- Mae’n creu ward â dau aelod mewn ardal drefol sydd â chysylltiadau cyfathrebu da.

10.12 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer rhanbarth Trefaldwyn, sy’n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Ffordun a Threfaldwyn, a Threlystan a Thre-wern.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae’n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn gymedrol.
- Mae’n cadw trefniadau un-aelod.

10.13.1 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer rhanbarth Y Trallwng, sy’n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Y Trallwng Castell, Y Trallwng Gungrog ac Y Trallwng Llanerchyddol.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae’n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ymhellach.
- Mae’n defnyddio’r newidiadau i’r ffin a gynigiwyd gan y Cyngor Tref.
- Mae’n cadw trefniadau un-aelod.

10.13.2 **Cytunodd** y Comisiwn ar y newidiadau ôl-ddilynol arfaethedig i Drefniadau Etholiadol y Cyngor Tref.

10.14 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer rhanbarth Aberriw, sy’n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Aberriw a Chastell Caereinion, a Chegidfa.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae’n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Caiff ei ategu gan gysylltiadau cyfathrebu da rhwng cymunedau.

10.15 **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer rhanbarth Llanwddyn, sy’n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Banwy, Llanfihangel a Llanwddyn, Llanerfyl a Llanfair Caereinion, Llanfyllin, Llangynyw a Meifod, a Llanrhaeder-ym-Mochnant a Llansilin.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n darparu'r newidiadau lleiaf i'r trefniadau presennol.
- Mae'n cynnal trefniadau un-aelod.

10.16 **Cytunodd** y Comisiwn ar enwau'r wardiau etholiadol arfaethedig i'w cynnwys yn yr Adroddiad Cynigion Terfynol, yn amodol ar rai newidiadau. Lle bu newidiadau o'r cynigion drafft, caiff yr enwau hyn eu hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer sylwadau.

11. Arolwg Etholiadol Pen-y-bont ar Ogwr

11.1 Ystyriwyd Adroddiad Cynigion Drafft Pen-y-bont ar Ogwr, dyddiedig 15 Hydref 2018, gan y Swyddog Arolygon.

11.2 Nododd a **chytunodd** y Comisiwn ar yr adroddiad, yn amodol ar newidiadau.

12. Llythyr Cylch Gwaith Diwygiedig

12.1 Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 2 Hydref 2018, gan y Prif Weithredwr.

12.2 Nododd y Comisiwn y llythyr cylch gwaith diwygiedig a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet, dyddiedig 26 Medi, a **chytunodd** ar Gynllun Gweithredol 2018-19, yn amodol ar newidiadau.
GWEITHREDU: Prif Weithredwr

13. Adroddiad Cynnydd ar y Prosiect Gweddnewid TGCh

13.1 Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 10 Hydref 2018, gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

13.2 **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a'r diweddariadau ynghylch gweithredu systemau TG newydd y Comisiwn.

14. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

14.1 Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 16 Hydref 2018, gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

14.2 **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a'r diweddariadau ynghylch rhaglen arolygon y Comisiwn.

14.3 **Cytunodd** y Comisiwn i barhau i gyhoeddi'r cynigion terfynol ar gyfer Gwynedd a Thorfaen, a sefydlu'r broses ar gyfer cwblhau Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob adroddiad terfynol yn y dyfodol.
GWEITHREDU: Prif Weithredwr

15. Cyfarfod Rhyng-Gomisiynol 2018

15.1 Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 16 Hydref 2018, gan y Prif Weithredwr.

15.2 **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a'r wybodaeth yn ymwneud â threfniadau ar gyfer y cyfarfodydd yng Nghaeredin ar 1 a 2 Tachwedd 2018.

16. Calendr Digwyddiadau 2018

16.1 **Nododd** y Comisiwn y Calendr Digwyddiadau.

17. Unrhyw fater arall

17.1 Dim.

18. Dyddiad y cyfarfod nesaf

18.1 20 Tachwedd 2018, yn dechrau am 9.30.